Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Garreg
# Llanfrothen
# Penrhyndeudraeth
# Gwynedd
# LL48 6LJ

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2014**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ym mhentref Llanfrothen sydd tua thair milltir o dref Porthmadog yng Ngwynedd.  Mae 21 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol.  Maent wedi'u trefnu'n ddau ddosbarth oed cymysg.

Mae tua hanner y disgyblion o gartrefi lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf.  Mae gan 28% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd llawer yn uwch na'r ganran genedlaethol.  Nid oes yr un disgybl â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig.  Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Garreg yn 2014-2015 yw £8,411.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £2,961.  Mae Ysgol Y Garreg yn y 7fed safle o'r 97 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Ebrill 2013.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn ystod yr Hydref 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- medrau llythrennedd a rhifedd bron pob disgybl yn dda;
- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dysgu;
- dealltwriaeth gadarn gan bron pob disgybl o sut i ddod yn iach;
- safonau ymddygiad yn gyson uchel a disgyblion yn cymdeithasu'n gytûn;
- llais y disgybl yn cael lle amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol;
- profiadau dysgu ysgogol yn galluogi disgyblion i fanteisio i'r eithaf ar eu hamser yn yr ysgol;
- addysgu dychmygus ac asesu pwrpasol yn cryfhau ymglymiad pob unigolyn i'w dysgu; a bod
- yr ysgol yn gymuned ofalgar lle mae oedolion a disgyblion yn dangos gofal a pharch tuag at ei gilydd a thuag at eraill yn dda iawn.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth strategol glir ar gyfer datblygu'r ysgol;
- ymrwymiad cryf yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau;
- yr ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau a blaenoriaethau newydd;
- hunanarfarnu wedi arwain at welliannau gweladwy mewn safonau a darpariaeth;
- yr adroddiad hunanarfarnu yn offeryn effeithiol ar gyfer datblygu'r ysgol;
- amrediad eang o bartneriaid yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion; a bod
- yr ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Cryfhau rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol i’r ysgol

A2 Sefydlu trefniadau clir ar gyfer arfarnu effaith y cynllun datblygu ar safonau a darpariaeth

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae safonau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol.

Mae'r holl ddisgyblion yn ymdrechu'n galed mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau'n gydwybodol ar dasgau, maent yn effro i holi ac ateb cwestiynau ac yn trafod eu gwaith yn hyderus. Mae parodrwydd disgyblion o'r holl ystod oedran i weithio'n annibynnol ac i wneud penderfyniadau ynghylch eu dysgu, yn gryfder. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn arfarnu eu gwaith yn feddylgar ac yn gallu adnabod yr hyn sydd angen ei wneud i'w wella.

O ystyried eu gallu a'u hoedran, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Wrth ymwneud â thasgau unigol neu wrth gydweithio ar weithgareddau grŵp, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn trafod eu gwaith yn hyderus. Maent yn dangos hoffter tuag at lyfrau ac yn darllen gyda chywirdeb cynyddol gan dalu sylw da i fynegiant a thestun. Erbyn pen uchaf y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu'n rhugl ac i nifer o bwrpasau, fel ysgrifennu llythyr, cyfleu gwybodaeth neu adrodd stori. Mae'r ysgrifenwyr mwyaf medrus yn cyflwyno darnau dychmygus a diddorol gan sillafu'r rhan fwyaf o eiriau cyfarwydd yn gywir. Fel rheol, mae'r llawysgrifen yn hawdd ei ddeall a chyflwyniad y gwaith yn ddestlus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod eu dysgu mewn modd clir a deallus gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ymadroddion a geirfa estynedig. Maent yn dangos diddordeb a mwynhad mewn llyfrau ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn effeithiol ar gyfer cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau fel llyfrau a gwefannau. Mae bron pob disgybl yn ysgrifennu'n hyderus i ystod eang o ddibenion, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am Pompei, ac yn cyfansoddi storïau a barddoniaeth o safon uchel.

Mae'r disgyblion sy'n dysgu'r Gymraeg fel eu hail iaith yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu hyfedredd i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau cwricwlaidd.

Yn unol â'u hoedran a'u gallu, mae bron pob disgybl yn trosglwyddo eu medrau mathemategol yn hyderus i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd pob dydd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn cyfrif set o wrthrychau'n annibynnol ac yn darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at o leiaf 20 yn hyderus a chywir. Erbyn diwedd y cyfnod, mae pob un yn defnyddio strategaeth 'cyfrif ymlaen' yn effeithiol iawn wrth wneud gwaith pen ac yn defnyddio mesurau safonol hyd a màs yn gywir. Gwnânt gynnydd da yn eu gallu i ddatrys problemau rhifol. Er enghraifft, wrth iddynt baratoi ar gyfer mynd i siop leol i brynu cynhwysion i wneud cawl.

Mae bron pob un yng nghyfnod allweddol 2 yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar gyfer datrys problemau ymarferol, yn dda. Er enghraifft, wrth i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 greu dyfynbris ar gyfer adeiladu cysgodfa, gwnânt ddefnydd pwrpasol o'u medrau cyfrifo ynghyd â'u gallu i reoli arian. Erbyn Blynyddoedd 5 a 6, mae bron pob disgybl yn defnyddio nodiant degol yn gywir ac yn defnyddio nifer o strategaethau ar gyfer gwirio eu hatebion. Mae'r rhan fwyaf yn cyflwyno gwybodaeth a gasglwyd, er enghraifft ynghylch y Ddaear a'r planedau, yn fedrus ar ffurf tablau a graffiau.

Dros y blynyddoedd diwethaf, ychydig bach o ddisgyblion oedd yn y grwpiau blwyddyn i'w hasesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. O ganlyniad, nid yw'r wybodaeth a gesglir o'r data yn ddigon dibynadwy i fedru adrodd yn deg arno.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol ac yn rhydd oddi wrth unrhyw gamdriniaeth gorfforol neu eiriol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i ddod yn iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u datblygiad.

Yn ystod gwersi, mae'r holl ddisgyblion yn weithgar a brwdfrydig, maent yn cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n dda ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae safonau ymddygiad yn gyson uchel gyda'r holl ddisgyblion yn cymdeithasu a chwarae'n hapus gyda'i gilydd. Mae disgyblion yn barchus a chwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Gwna hyn gyfraniad sylweddol at greu ethos dymunol sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol.

Rhoddir lle blaenllaw i lais y disgybl ym mywyd a gwaith yr ysgol, sy'n cryfhau eu hymglymiad i'w dysgu a'u cymuned leol. O oedran cynnar, mae disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd rheolaidd iddynt wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu ac i gyfrannu eu syniadau i gynnwys y themâu tymhorol. Mae disgyblion hŷn yn dewis meini prawf llwyddiant eu hunain mewn rhai gwersi a thrwy'r cyngor ysgol a'r pwyllgor Ysgol Werdd, maent yn gwneud penderfyniadau priodol ac yn ysgwyddo cyfrifoldebau pwrpasol.

Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae cyfraddau presenoldeb wedi bod yn gyson uchel dros y tair blynedd ddiwethaf ac wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu yn cynnig cyfleoedd ysgogol ar gyfer dysgu, sy'n galluogi'r ystod lawn o ddisgyblion i fanteisio i'r eithaf ar eu hamser yn yr ysgol. Mae cynllunio a threfnu manwl a dychmygus yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio gan weithgareddau perthnasol syn ymwneud â bywyd pob dydd ac yn ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion.

Mae cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen wedi'i seilio'n gadarn ar y chwe maes dysgu ac ar sicrhau bod gan ddisgyblion rôl weithredol yn eu dysgu. Mae'r cwricwlwm ar ddechrau cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion ac yn sicrhau bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn gydlynus. Mae'r cynllunio'n fanwl ac wedi ei ymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau'r disgyblion. Mae'r pwyslais cryf sydd ar ddarparu profiadau ymarferol 'go iawn' i ddisgyblion yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygu eu medrau ynghyd â'u gallu i ddatrys problemau. Mae gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol wedi'u hymgorffori'n gelfydd yn holl gynlluniau'r ysgol.

Mae'r dimensiwn Cymreig yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol iawn drwy amrywiaeth eang o weithgareddau yn y dosbarth, gweithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau. Trwy astudio themâu fel Oes y Tywysogion, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol a hanesyddol Cymru.

Mae darpariaeth gydlynus a da ar gyfer addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae cynllun mentergarwch wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ddealltwriaeth disgyblion o fyd masnach.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes dda ac maent yn herio pob disgybl i wneud ei orau ac i gyflawni'n dda. Maent yn disgwyl llawer gan bob disgybl ac yn annog pob un ohonynt i gymryd cyfrifoldeb dros eu gwaith ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae athrawon yn cynllunio'n fanwl ac yn llunio amcanion clir ar gyfer y profiadau dysgu. Nodwedd gref yn y ddau ddosbarth yw gallu'r athrawon i ddarparu tasgau diddorol a dychmygus sy'n ymateb yn dda i ystod oedran a gallu'r holl ddisgyblion. Mae'r arfer o rannu amcanion a meini prawf llwyddiant gwersi gyda disgyblion yn cryfhau ymglymiad pob unigolyn i'w dysgu ac yn rhoi synnwyr clir o gyfeiriad i'r dysgu a'r addysgu. Mae'r berthynas glos, ynghyd â'r synnwyr o ymddiriedaeth sydd rhwng disgyblion ac oedolion, yn cyfrannu'n gryf tuag at greu synnwyr o gymuned ddysgu effeithiol.

Yn ystod gwersi, mae'r athrawon yn holi'n fedrus ac yn ymyrryd yn bwrpasol er mwyn hyrwyddo'r dysgu yn effeithiol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn herio syniadau disgyblion ac yn ymestyn eu dealltwriaeth yn effeithiol iawn. Maent yn defnyddio amrediad eang o ddulliau addysgu fel gwaith grŵp, parau a chyflwyniadau dosbarth cyfan yn effeithiol er mwyn ennyn diddordeb disgyblion a hyrwyddo ymddygiad da.

Trwy asesu parhaus a dadansoddiadau manwl o ddata asesu, caiff cynnydd pob unigolyn ei fonitro'n barhaus. Mae hyn yn galluogi staff i ddarparu cymorth ychwanegol i grwpiau o ddisgyblion ac unigolion yn ôl yr angen.

Bydd athrawon yn rhoi adborth manwl ar lafar i grwpiau ac unigolion sy'n eu galluogi i wybod pa mor dda y maent ei wneud ar hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae ansawdd marcio gwaith disgyblion o safon uchel ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at welliant parhaus.

Mae adroddiadau i rieni yn bodloni'r gofynion statudol ac maent yn rhoi gwybodaeth glir am gynnydd disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae oedolion a disgyblion yn dangos gofal a pharch tuag at ei gilydd a thuag at eraill yn dda iawn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol rheolaidd fel ymarferion pêl-droed a chriced, yn cynnig profiadau gwerthfawr i hybu lles a ffitrwydd yr holl ddisgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae cysylltiadau agos iawn rhwng yr ysgol ac amrywiaeth o asiantaethau allanol, er enghraifft seicolegwyr addysg, gwasanaeth ar gyfer y rhai trwm eu clyw a therapyddion galwedigaethol. O ganlyniad, mae gofal a chynhaliaeth o ansawdd uchel ar gael i ddisgyblion unigol.

Mae trefniadau trylwyr ac effeithiol ar gyfer adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gyda'r cydlynydd dynodedig yn rhoi arweiniad buddiol i staff a llywodraethwyr yr ysgol. Caiff targedau disgyblion eu nodi'n glir mewn cynlluniau unigol manwl a'u hadolygu a'u diweddaru'n dymhorol mewn ymgynghoriad â'r rhieni. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn cymorth effeithiol gan athrawon a chymorthyddion a chan arbenigwyr allanol yn ôl yr angen. Yn ogystal, mae athrawon yn adnabod disgyblion mwy abl a thalentog yn fuan ac yn darparu'n briodol ar eu cyfer.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda. Mae'n darparu amgylchedd dysgu deniadol ac ysgogol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae'r ymdeimlad hwn yn helpu meithrin unigolion cyfrifol sy'n barod i helpu ei gilydd ac eraill. Mae amgylchedd ffisegol yr ysgol yn briodol gyda digon o ofod ac ystafelloedd dysgu sy'n cynnwys arddangosfeydd diddorol a symbylus. Mae hyn yn ysgogi diddordeb disgyblion ac yn hyrwyddo dysgu effeithiol.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau sy'n gweddu'n dda i anghenion disgyblion o bob oedran a gallu. Mae adeiladau'r ysgol a'r tir o'i chwmpas, gan gynnwys yr ardal y tu allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan ddisgyblion ac oedolion. Mae'r holl safle yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n raenus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth, mewn byr amser, wedi darparu gweledigaeth strategol glir sy'n ymateb yn systematig i flaenoriaethau ac anghenion datblygu'r ysgol. Mae wedi llwyddo i rannu ei weledigaeth yn effeithiol gyda staff a llywodraethwyr ac mae hyn wedi arwain at safonau a chynnydd da yn neilliannau a lles disgyblion. O ganlyniad,

mae ymrwymiad cryf ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau sy'n cryfhau'r ddarpariaeth ac yn gwella safonau.

Mae'r systemau cyfathrebu yn effeithiol ac mae'r rhain yn cyfrannu'n dda tuag at greu ysgol sy'n hunanfeirniadol ac yn datblygu'n barhaus. Mae'r staff yn cefnogi'r pennaeth yn dda ac yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd i greu ethos cartrefol ar gyfer disgyblion. Trwy gyfarfodydd rheolaidd, cânt gyfleoedd gwerthfawr i drafod cynnydd ac i gynllunio gwelliannau pellach.

Mae strategaethau priodol wedi'u sefydlu ar gyfer dadansoddi data perfformiad yr ysgol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae gweithredu dulliau asesu ar gyfer dysgu ynghyd â mabwysiadu'r Strategaethau Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn rhoi cefnogaeth gref i'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o safonau a chyflawniadau'r disgyblion. Gydag arweiniad y pennaeth, maent yn dechrau adnabod cryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu ymhellach. Er bod gan y llywodraethwyr drefn briodol o wirio effeithiolrwydd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad disgyblion, nid yw eu rôl fel cyfaill beirniadol i'r ysgol, eto wedi'i ddatblygu i'w lawn botensial.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i adnabod ei chryfderau, ynghyd â mannau sydd angen gwelliant. Mae hyn yn cynnwys casglu a dadansoddi ystod eang o dystiolaeth unionyrchol, craffu ar waith disgyblion a chasglu barn llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth lawn i sylwadau ac i adroddiadau ffurfiol, megis barn swyddogion yr awdurdod lleol.

Mae'r adroddiadau monitro pynciau yn adnabod deilliannau'r disgyblion a chryfderau'r addysgu yn dda ac yn nodi'n glir y mannau ar gyfer gwelliant. Yn ogystal, caiff data perfformiad ei ddefnyddio'n fwriadus i fonitro cynnydd ac i gynllunio ar gyfer gwella.

Mae'r ysgol yn gallu dangos bod hunanarfarnu wedi arwain at welliannau gweladwy mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac asesu ar gyfer dysgu.

Mae cyswllt clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun, sy'n cynnwys amserlen weithredu briodol ynghyd â chyfrifoldebau staff a chostau, yn canolbwyntio'n glir ar wella safonau a darpariaeth. Fodd bynnag, nid oes sylw digonol yn y cynllun datblygu ar arfarnu effaith y blaenoriaethau blaenorol ar ddeilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn adlewyrchu'n gywir y rhan fwyaf o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. O ganlyniad, mae'n offeryn effeithiol ar gyfer datblygu'r ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n gynhyrchiol gydag amrediad eang o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith mentergarwch a wnaed ar y cyd gyda siop leol. Mae partneriaeth agos iawn gyda'r rhieni sy'n hynod o gefnogol i'r ysgol ac yn cyfrannu'n hael tuag at ystod o weithgareddau, gan gynnwys mentrau codi arian.

Mae'r trefniadau pontio effeithiol ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgol uwchradd yn paratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Wrth gydweithio ar flaengareddau penodol, megis 'blogio,' mae disgyblion yr ysgol yn manteisio'n sylweddol ar arbenigeddau athrawon yr ysgol uwchradd.

Mae'r bartneriaeth a sefydlwyd yn ddiweddar gyda grŵp o ysgolion tebyg, wedi galluogi'r ysgol i rannu arferion da ac i sicrhau gwell cysondeb a chywirdeb yn asesiadau athrawon.

Mae'r ysgol yn elwa o gyswllt adeiladol gyda'r gymuned ac mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i gyfrannu mewn gweithgareddau cymunedol, er enghraifft trwy gymryd rhan yn yr orymdaith Dydd Gŵyl Dewi. Mae hyn yn datblygu'r ymdeimlad bod yr ysgol yn perthyn i'w chymuned ac yn hyrwyddo adnabyddiaeth y disgyblion o'u hardal leol yn dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae athrawon yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Cefnogir hyn yn effeithiol gan staff cymorth effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd staff yn effeithiol ac yn gwneud defnydd da o'u doniau penodol i wella'r ddarpariaeth ac i godi safonau'r disgyblion mewn pynciau fel cerddoriaeth ac addysg gorfforol.

Mae'r trefniadau ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol ac yn cyfrannu'n dda tuag at godi safonau hanes a daearyddiaeth trwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi hyn yn briodol.

Mae'r ysgol yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu. Mae'r staff wedi elwa o gydweithio proffesiynol gydag ysgolion eraill sydd wedi arwain at wella dulliau safoni gwaith disgyblion.

Mae'r grant amddifadedd disgyblion yn cael ei wario'n dda.

Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol sy'n helpu'r holl ddisgyblion i gael mynediad llawn i gwricwlwm yr ysgol. Gyda chefnogaeth swyddog yr awdurdod lleol, mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn rheoli adnoddau ariannol yr ysgol yn ofalus i gefnogi ei blaenoriaethau. Mae gan yr ysgol gynlluniau cadarn i wneud defnydd effeithiol o'i balansau. Mae'r is-banel cyllid yn monitro'r gyllideb yn effeithiol.

O ystyried y deilliannau da a'r defnydd priodol o'r cyllid sydd ar gael iddi, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

### Ymateb i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| William Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Rhys Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sian Williams | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.